Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Nodyn gwybodaeth

# Beth sydd mewn llifddyfroedd?

Nid yn unig y mae llifddwr yn lliw brown afiach, ond gall gynnwys cymysgedd annymunol o gemegau, malurion a bacteria. Gall hefyd guddio ymylon palmentydd, ffyrdd anwastad, tyllau archwilio sydd heb eu cloriau, ceblau pŵer sydd wedi dod i lawr a sbwriel. Mae'r rhestr isod yn tynnu sylw at beryglon posibl a bydd yn helpu i atgyfnerthu'r neges i aros allan o lifddwr.

## Gallai llifddwr achosi i chi anafu'ch hun neu foddi.

### Grym y dŵr

- Gall dim ond 15cm (6 modfedd) o ddŵr sy'n llifo'n gyflym gymryd person oddi ar ei draed.
- Mae 30cm (1 troedfedd) o ddŵr sy'n symud yn ddigon i godi'r car teuluol cyffredin.
- Bydd 60cm (2 droedfedd) o ddŵr sy'n symud yn cario'r rhan fwyaf o gerbydau i ffwrdd.
- Gallai malurion sy'n arnofio hefyd daro person â grym sylweddol ac achosi anaf.

### Dargludydd trydan

Fel dargludydd trydan, mae'r risg o sioc drydanol yn waeth pan fydd dŵr a thrydan yn agos at ei gilydd. Gall llifddyfroedd ddifrodi gosodiadau a gwifrau trydanol, a hyd yn oed pan fydd llifddyfroedd wedi gostwng, gall mwd a malurion ddargludo trydan, gan wneud yr ardal gyfagos yn beryglus yn ystod ac ar ôl llifogydd.

### Pridd

Gall llifddwr gludo a chynnwys llawer iawn o bridd sydd wedi erydu, gan ei droi'n frown a'i gwneud yn anodd gweld drwyddo.

## Peryglon cudd

### Gwrthrychau miniog e.e. hoelion / gwydr wedi torri

Gall llifddwr gario a chuddio gwrthrychau miniog a all dorri'r croen, fel metel a gwydr wedi torri. Os na ellir eu gweld, gall y rhain dorri'r croen, gan roi'r rhai sy'n cerdded trwy lifddwr mewn perygl o haint a thetanws, clefyd difrifol yn y system nerfol a achosir gan facteriwm sy'n cynhyrchu tocsin.

### Peryglon baglu

Gall llifddwr budr guddio tyllau a pheryglon baglu fel cloriau tyllau archwilio neu dyllau agored, ymylon palmentydd a ffyrdd anwastad. Gall y diffyg gwelededd hwn ei gwneud hi'n anodd ac yn anniogel cerdded trwy lifddwr a gall arwain at anafiadau sy'n deillio o faglu neu syrthio.

### Llygryddion

Mae llifddwr yn aml yn cael ei halogi gan ddŵr ffo amaethyddol a phlaleiddiaid, carthion amrwd o systemau carthffosiaeth sy'n gorlifo, petrol ac olew o gerbydau a chemegau peryglus maes diwydiant, meddygaeth a'r cartref o adeiladau cyfagos. Gall y rhain achosi niwed eang a hirdymor i bobl, yr amgylchedd a bywyd gwyllt.

### Clefyd a haint

- Mae llifddwr sydd wedi'i halogi gan lygryddion yn peri risg i iechyd pobl, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Gall merddwr, adeiladau llaith ac eitemau soeglyd arwain at dwf llwydni a bacteria.
- Gall y tocsinau hyn arwain at adwaith alergaidd ac achosi i asthma waethygu.
- Gall llyncu llifddwr halogedig achosi problemau treulio fel poen stumog, dolur rhydd a chwydu.
- Gall toriadau a chlwyfau bach ddatblygu yn heintiau eilaidd pan fyddant yn dod i gysylltiad â bacteria mewn dŵr halogedig.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**